



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

DATGANIAD O FWRIAD RHWYMEDIGAETH CWMNI YNNI

Dyddiad cyhoeddi:

Rhif Fersiwn: F1

Cyhoeddi ar y wefan:

1. CYFLWYNIAD

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) yn gynllun arbed ynni gan y llywodraeth i helpu i ostwng gollyngiadau carbon a nifer yr aelwydydd sydd mewn tloedi tanwydd. Mae Cymhwysedd Hyblyg ECO wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar i'n galluogi fel awdurdod lleol i ymgysylltu â chwmnïau ynni gyda dull meini prawf hyblyg newydd, er mwyn galluogi cyflenwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau a chynorthwyo aelwydydd sydd mewn tloedi tanwydd neu feddianwyr cartrefi sydd ar incymau isel ac sy'n agored i effeithiau cartrefi oer.

Y cyflenwyr ynni neu eu gosodwyr / contractwyr sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â p'un a ddylai cartref gael mesurau ECO. Sylwch nad yw cael eich cynnwys mewn Datganiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gyflenwr yn gwarantu cyllid ECO, oherwydd bydd y penderfyniad terfynol yn dibynnu ar;

- i) Arolwg a gynhelir gan osodwyr / contractwyr y cyflenwyr a'r costau gosod a gyfrifir
- ii) Yr arbedion ynni y gellir eu cyflawni mewn eiddo, a
- iii) P'un a yw cyflenwyr wedi cyrraedd eu targedau neu a oes angen mesurau pellach arnynt i gyrraedd eu targedau ECO.

Mae'n bosibl na fydd cyllid ECO yn talu costau llawn y mesurau, ond mae'n rhaid i aelwydydd gael eu hysbysu o unrhyw gyfraniad sy'n ofynnol ganddynt a chytuno cyn i unrhyw waith gael ei wneud.

Mae CBSC yn disgwyl i unrhyw gyflenwr neu gontractwr Rhwymedigaeth Cwmni Ynni gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a dilyn gofynion Ofgem ar gyfer cynllun 'Help to Heat' Rhwymedigaeth Cwmni Ynni. Byddai angen iddynt hefyd weithredu'n unol ag ymarfer gorau yn y diwydiant o ran gofal defnyddwyr a safonau ansawdd unrhyw waith a allai gael ei wneud.

2. SUT YR YDYM YN BWRIADU ADNABOD AELWYDYDD CYMWYS

Bydd CBSC yn targedu ardaloedd incwm isel a chartrefi sydd â:

- i) Lefelau perfformiad ynni gwael
- ii) Pobl ag incwm isel ac anhwylderau iechyd, sy'n arbennig o agored i niwed gan oerfel
- iii) Mewn ardaloedd incwm isel dynodedig

Dim ond perchnogion a meddianwyr preifat fydd yn gallu gwneud cais am y cyllid hwn. Mae'r meini prawf cymhwyster wedi'u rhestru isod a bydd angen i berchennog yr eiddo lofnodi datganiad.

3. MEINI PRAWF CYMHWYSO

Aelwydydd â chostau ynni uchel neu sy'n agored i niwed gan effeithiau cartrefi oer

Mae'n rhaid i aelwydydd ateb meini prawf i) neu ii) a iii) i fod yn gymwys.

- i) Aelwydydd gyda chostau uchel;
Mae'n rhaid i'r eiddo fod yn raddfa E, F neu G ar Dystysgrif Perfformiad Ynni (TPY) neu fod â sgôr sy'n gyfartal i neu'n uwch na 154 pwynt yn Nhabl 1 isod
neu
- ii) Aelwydydd sy'n cwrdd â'r trothwy incwm isel, gweler Tabl 2 isod;
ac
- iii) Aelwydydd sy'n ddiamddiffyn i effeithiau cartref oer, gweler Tabl 3 isod

3.1 Aelwydydd gyda chostau uchel

Tabl 1 - Cyflwr yr Eiddo				
Manylion yr eiddo	Math	Pwyntiau	Ticiwch	Sgôr
Nifer yr ystafelloedd gwely	1	1		
	2	2		
	3 +	3		
Nifer y bobl sy'n bywyn yr eiddo	1	1		
	2	2		
	3 +	3		
Faint o ddeunydd insiwleiddio sydd yn y grogloffft ar hyn o bryd	Dim	5		
	Hyd at 150mm	3		
	250mm ac uwch	1		
Pa fath o waliau sydd yn yr eiddo	Adeiladwyd fel rhan o system	5		
	Carreg / bric solet	3		
	Adeiladu ceudod	1		
Faint o ddeunydd insiwleiddio sydd yn y waliau	Allanol	1		
	Mewnol	1		
	Ceudod	2		
	Dim	5		
Pa danwydd gwresogi a ddefnyddir yn yr eiddo	Prif gyflenwad nwy	1		
	Olew	2		
	LPG	3		
	Trydan	5		
	Tanwydd solet	5		
A oes system gwres canolog yn yr eiddo a beth yw ei oedran	Llai na 10 oed	1		
	Mwy na deg oed	3		
	System wedi torri	5		
	Dim system	5		
CYFANSWM				

3.2 Adnabod Aelwydydd incwm isel

Bydd y Cyngor yn defnyddio'r tabl a gyhoeddwyd yn y canllawiau i adnabod aelwydydd incwm isel (BEIS Ebrill 2017, ECO Flex Guidance) fel y nodir isod;

Mae'r trothwyon incwm yn weddol gyson â'r rheiny a ddefnyddir dan y dangosydd Incwm Isel Costau Uchel (2014)²³, wedi'u chwyddo i adlewyrchu prisiau 2017/2018.

Tabl 2 – Trothwy Incwm		
Cyfansoddiad yr Aelwyd	Incwm blynyddol yr aelwyd	Incwm misol cyfatebol yr aelwyd
1 oedolyn (18 mlwydd oed neu hŷn)	£8,900	£740
ac 1 plentyn	£11,700	£980
a 2 blentyn	£14,400	£1,200
a 3 phlentyn	£17,300	£1,440
a 4 plentyn neu fwy	£20,100	£1,680
2 oedolyn (18 mlwydd oed neu hŷn)	£14,600	£1,220
ac 1 plentyn	£17,400	£1,450
a 2 blentyn	£20,200	£1,680
a 3 phlentyn	£23,100	£1,930
a 4 plentyn neu fwy	£25,700	£2,140

Gan ddefnyddio atebion i'r cwestiynau canlynol, bydd lefel trothwy incwm yr aelwyd yn cael ei chyfrifol;

Cwestiwn 1 – Sawl person dros 18 oed sydd fel rheol yn byw yn eich eiddo, yn cynnwys chi?

Cwestiwn 2 – Sawl person dan 18 oed sydd fel rheol yn byw yn eich eiddo?

Cwestiwn 3 – Ar ôl talu rhent neu forgais, faint o incwm sydd gan eich aelwyd ar ôl bob mis?

Bydd y trothwy incwm yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar y trothwyon cyfansoddiad aelwyd perthnasol ar y tabl penodol llai rhent/morgais yr aelwyd. Mae hyn yn sefydlu a yw incwm yr aelwyd, ar ôl costau tai, yn uwch neu'n is na'r trothwy incwm isel.

Os oes gan aelwydydd incwm is na'r hyn a nodir yn y tabl trothwy incwm, yna bydd yn rhaid iddynt symud ymlaen i Dabl 3, i weld a ydynt yn agored i effeithiau byw mewn cartref oer.

3.1. Adnabod pobl ddiameddiffyn oherwydd oerni

Tabl 2 – Pa mor agored i niwed yw'r cleient?	
Mae aelod o'r aelwyd:	
1	Yn berson dros 60 oed (mae angen prawf i ddangos oedran)
2	Yn blentyn mewn addysg neu'n fam feichiog
3	Yn dioddef o anhwylderau anadlol (yn arbennig clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma plant)
4	Yn dioddef o anhwylderau cardiofasgwlaidd (e.e. clefyd isgemia'r galon, clefyd cerebrofasgiwlar)
5	Yn dioddef o salwch meddwl cymedrol i ddifrifol (e.e. sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol)
6	Yn camddefnyddio sylweddau
7	Yn dioddef o Dementia
8	Yn dioddef o anhwylderau niwrobiologol a chlefydau cysylltiedig (e.e. fibromyalgia, ME)
9	Yn dioddef o salwch terfynol / canser
10	Yn methu â symud llawer / anabl
11	Yn dioddef o hemoglobinopathi (clefyd y crymangelloedd, thalasaemia)
12	Yn rhywun ag anableddau dysgu difrifol
13	Yn dioddef o afiechydon hunanimiwedd a diffyg hunanimiwedd (e.e. lwpws, MS, diabetes, HIV)
14	Pobl â dibyniaethau
15	Pobl sydd wedi mynd i'r ysbyty oherwydd eu bod wedi disgyn
16	Mewnfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid (os ydynt yn byw mewn deiliadaeth breifat)
17	Pobl sy'n cael cyfnodau o ddigartrefedd

Datganiad wedi'i lofnodi gan feddyg neu ymarferydd iechyd i gadarnhau problemau iechyd 3-13.

Mae'r cyflyrau iechyd cymwys sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n gwneud aelwydydd yn agored i oerfel yn seiliedig ar y rheiny a adlewyrchir yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) 2015 ar farwolaethau ychwanegol y gaeaf a salwch a achosir gan gartrefi oer.

I gymhwysu fel aelwyd sy'n agored i niwed oherwydd oerfel, mae'n rhaid i rywun ar yr aelwyd fod yn dioddef o un o'r cyflyrau iechyd uchod o leiaf. Caiff unrhyw aelwydydd sy'n cael eu hatgyfeirio heb ateb y meini prawf uchod eu hystyried fesul achos gan CBSC.

Prosiectau "mewnlenni" deunydd insiwleiddio mewn waliau solet

Os oes gwaith posibl wedi'i nodi, bydd aelwydydd yn cael eu cefnogi i fanteisio ar gyllid er mwyn inswleiddio waliau solet o dan y categori "mewnlenni" fel y nodir yng nghanllawiau BEIS a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017.

3.4. Aelwydydd sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig

Mae'r aelwyd yn y 10% o'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig o'r maes Incwm ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Dyma ble mae'r ardaloedd hyn (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014):

Name	Code
Abergele Pensarn 2	W01001928
Glyn (Conwy) 2	W01000144
Tudno 2	W01000187
Llysfaen 1	W01000163

NEU

Aelwydydd sy'n byw mewn ardaloedd lle mae rhaglenni Buddsoddiad Adfywio a Dargedir yn bodoli neu gynlluniau ardal tebyg.

Prosiectau "mewnlenni" deunydd insiwleiddio mewn waliau solet

Os oes gwaith posibl wedi'i nodi, bydd aelwydydd yn cael eu cefnogi i fanteisio ar gyllid er mwyn insiwleiddio waliau solet o dan y categori "mewnlenni" fel y nodir yng nghanllawiau BEIS a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017.

3.5. Aelwydydd sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n byw mewn ardaloedd o dlodi tanwydd difrifol trwy raglen Arbed Llywodraeth Cymru

Mae Arbed am Byth wedi cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru i ddarparu Arbed, sef rhaglen ar gyfer ardaloedd sy'n mynd ati i geisio lleddfu tloidi tanwydd a'i ddileu lle bo hynny'n bosibl ledled Cymru. Nod y rhaglen yw darparu cyfres o fesurau, yn seiliedig ar asesiad o'r tŷ cyfan, i wella effeithlonrwydd ynni tai mewn ardaloedd o dlodi tanwydd difrifol.

Er mwyn canfod a yw ardal mewn tloidi tanwydd difrifol, mae Arbed am Byth ynghyd â'i is-gontractwr arweiniol, yr Ymddiriedolaeth Garbon, yn modelu yn erbyn y meini prawf canlynol ac yn gwneud asesiad.

(Sylwch – nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol ac nid oes angen i bob dangosydd fod yn bresennol ym mhob cynllun i ddangos tloidi tanwydd):

- Anodd ei wresogi (cyfraddau EFG tystysgrif perfformiad ynni)
- Anodd ei wresogi (archdeip)
- Statws cysylltiad nwy
- Ardal agored i'r tywydd
- Salwch (cyfrifiad)
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (meysydd incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg a thai)
- Budd-daliadau (Treth y Cyngor, Budd-dal Tai, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Budd-daliadau Analluogrwydd, unig rieni, gofalwyr, anabl, budd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig ag incwm, budd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig â bod yn ddi-waith)
- Prydau ysgol am ddim (% y plant sy'n gymwys / derbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgol(ion) lleol)

- i. Yr angen am grwpiau cefnogi lleol (e.e. Dechrau'n Deg, banciau bwyd, banciau tanwydd ac ati)
- j. Peryglon categori 1 y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai mewn amodau oer eithafol (e.e. nifer yr adroddiadau i'r awdurdod lleol am archdeip(iau) yn y cynllun arfaethedig)

Os yw'r asesiad hwn yn darparu tystiolaeth o danwydd tlodi difrifol, bydd Arbed am Byth wedyn yn llunio cynnig cynllun manwl iawn sy'n nodi pa fesurau y bydd angen eu gosod er mwyn tynnu'r cleient allan o dlodi tanwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn goruchwyllo'r broses hon o safbwynt archwilio er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus â'r buddsoddiad sy'n cael ei geisio.

4. LLYWODRAETHU

Bydd y swyddogion isod yn gyfrifol am lofnodi datganiadau ar ran yr awdurdod lleol.

- Ivor Jones – Rheolwr Gwelliannau Tai
- Siân Anwyl Jones – Syrfëwr Technegol Gwelliannau Tai

Sylwch: Dylech ganiatáu 14 diwrnod i'r datganiadau gael eu llofnodi.

5. ATGYFEIRIADAU

O dro i dro bydd atgyfeiriadau'n dod o ffynonellau amrywiol nas diffinnir ar hyn o bryd.

6. TYSTIOLAETH, MONITRO AC ADRODD

Cofnodir gwybodaeth ar nifer o gysylltiadau / atgyfeiriadau unigryw a wneir i CBSC ar gyfer Cymhwysedd Hyblyg ECO a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn eu hadroddiadau perfformiad blynyddol i'r Tîm Tai. Caiff y wybodaeth ei rhannu rhwng y rheiny nad ydynt yn gymwys am gymorth, a'r rheiny sy'n gymwys o dan y meini prawf tlodi tanwydd neu sy'n gymwys fel incwm isel, agored i niwed o fyw mewn cartref oer neu o fyw mewn ardal o amddifadedd.

Caiff gwybodaeth ei chofnodi hefyd am y math a nifer o fesurau a ariennir ac a osodir i aelwydydd cymwys o dan y cynllun hwn, gwerth y mesurau hynny ac amcangyfrifon o'r arbedion ariannol a/neu garbon disgwylidig.

7. LLOFNOD



Iwan Davies, Y Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyddiad: 6 Mawrth 2019